Yr Amgylchedd

Mae'r British Council yn creu cyfleoedd rhyngwladol i bobl y DU a gwledydd eraill gan feithrin ymddiriedaeth rhyngddynt yn fyd-eang. Mae ein gweithrediadau a'n gweithgareddau busnes yn cael effaith ar yr amgylchedd ac felly, rydym yn ymrwymedig i reoli a lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd.

Mae ein System Rheoli Amgylcheddol wedi ennill ardystiad ISO14001 ym mhob cwr o ystad y DU ac mae ein cynllun gweithredu amgylcheddol yn gosod targedau ar gyfer lleihau ein hôl troed carbon yn y DU.

Rydym yn defnyddio ein Hadnodd Fframwaith Amgylcheddol (EFT) i reoli ein heffaith amgylcheddol yn ein rhwydwaith rhyngwladol mewn mwy na 100 o wledydd.

Mae'r British Council yn ymrwymedig i'r canlynol: annog dewis opsiynau cynaliadwy a moesegol wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau

- adolygu, deall a rheoli'r amrywiaeth o effeithiau amgylcheddol sy'n deillio o'n gweithgareddau
- sicrhau ein bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol y DU ac yn rhyngwladol
- pennu amcanion a thargedau amgylcheddol ar gyfer gweithgareddau ag
- effaith amgylcheddol sylweddol
- cyfleu ein cynnydd o ran lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd i randdeiliaid mewnol ac allanol perthnasol
- monitro a gwella effaith .

Byddwn yn darparu adnoddau digonol a phriodol i roi'r polisi hwn ar waith ac yn sicrhau y caiff ei gyfleu a'i ddeall.

Bydd y British Council yn adolygu'r datganiad polisi byd-eang hwn yn flynyddol er mwyn adlewyrchu datblygiadau cyfreithiol a rheoliadol newydd a hyrwyddo arfer da.



Cymeradwywyd y datganiad polisi byd-eang hwn gan Martin Davidson, Prif Weithredwr, ym mis Chwefror 2014 a chaiff ei adolygu ym mis Chwefror 2015.